

Arolygiad Anableddau Dysgu (dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr**

Dyddiad arolygu: 18 a 19

Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref
2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
5.	Y camau nesaf	24
6.	Methodoleg	25
	Atodiad A.....	27

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr ar 18 a 19 Gorffennaf 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Edrychodd AGIC ar y modd roedd y gwasanaeth anabledau dysgu yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anabledau dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Uned Asesu a Thriniaeth Anableddau Dysgu yw'r gwasanaeth, sy'n cynnig gofal i hyd at saith o gleifion ag anableddau dysgu. Mae'r uned yn rhan o wasanaethau anableddau dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Rheolwr uned, sy'n nyrs gofrestredig, sy'n gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd. Cynorthwyr y rheolwr gan ddirprwy a thîm o staff, gan gynnwys nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd a staff cadw tŷ domestig.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuwyd tystiolaeth gennym fod y gwasanaeth yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Dyma'r hyn a ganfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd arweinyddiaeth eglur a chryf o'r uned, gan ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Roedd gan bob claf gynllun gofal manwl iawn yn nodi'r holl gymorth a chefnogaeth unigol yr oedd eu hangen arnynt.
- Roedd y ddarpariaeth o fwyd i'r grŵp cleifion yn rhagorol, a siaradodd cleifion a staff yn ffafriol iawn am y prydau bwyd.
- Roedd y berthynas rhwng yr uned anableddau dysgu a gwasanaethau gofal iechyd corfforol yn ganmoladwy ac o fudd mawr i'r grŵp cleifion.
- Cynorthwywyd cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn hoffi cymryd rhan ynddynt yn yr uned ac yn y gymuned leol.

Dyma'r hyn yr argymhellwyd gennym y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Roedd angen ailwampio'r ystafelloedd ymolchi a'r cawodydd yn yr uned er mwyn sicrhau y gall staff gynorthwyo cleifion yn effeithiol i gynnal eu hylendid personol fel sy'n ofynnol.
- Dylai offer diogelwch personol mae ei angen yn gyffredin ar gyfer gofalu am gleifion fod ar gael yn barod i'r staff.
- Dylai'r cleifion allu cael mynediad at y rhyngrwyd yng ngwasanaethau Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Cynorthwywyd cleifion i gadw'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn hoffi cymryd rhan ynddynt. Gwelsom yn gyffredinol staff yn trin cleifion gyda pharch a charedigrwydd. Fodd bynnag, yn ystod ein harsylwadau o ryngweithio rhwng staff a chleifion, gwelsom un aelod o staff a allai fod wedi rhyngweithio â'r cleifion gyda mwy o barch.

Roedd gan yr holl gleifion gynlluniau gofal manwl iawn ac roedd anghenion cyfredol y cleifion yn cael eu diwallu yn yr uned gan y tîm staff. Roedd y tîm nyrsio wedi datblygu dogfennau allweddol a oedd yn cynnig llawer o fanylion am y cleifion unigol a sut i ofalu amdanynt a'u cynorthwyo fel unigolion.

Gofynnodd y tîm arolygu am safbwyntiau'r cleifion ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn yr uned trwy sgysiau wyneb yn wyneb â nhw.

Cadw'n iach

Mae pobl yn cael eu grymuso a'u helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalywyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Cynorthwywyd cleifion yn yr uned i gadw'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hybu eu lles.

Dywedodd staff nyrsio uwch wrthym fod cleifion yn yr uned wedi'u cofrestru gyda gwasanaeth meddyg teulu. Roedd asesiadau corfforol manwl helaeth a gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion cleifion unigol. Roedd gan y cleifion pasbortau ysbyty¹ cyfredol ar waith rhag ofn iddynt gael eu derbyn i ysbyty cyffredinol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi datblygu gwybodaeth iechyd estynedig o'r enw 'Fy Anghenion Iechyd' yn ôl y gofyn, yn ogystal â'r

¹ Dogfen yw pasbort ysbyty sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am rywun ag anabledd dysgu ac sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i staff ysbyty amdano a'i iechyd pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty.

pasbortau ysbyty. Roedd hyn yn cynnig manylion ychwanegol i gynorthwyo staff i ddeall gofynion iechyd corfforol cymhleth rhai o'r cleifion.

Cynorthwywyd y cleifion i weld deintydd ac optegydd yn unol â'u hanghenion. Bydd deintydd yn dod i'r uned yn ôl yr angen.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain y gallent fynd iddynt trwy gydol y dydd; roedd gan un claf fynediad at 'ystafell feddal' hefyd, lle gallai'r staff reoli ymddygiad y claf mewn amgylchedd a reolir.

Roedd lolfa/ystafell fwyta gymunedol fawr lle gallai cleifion dreulio amser fel grŵp neu le digonol i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar eu pennau eu hunain. Roedd 'ystafell dawel' hefyd lle gallai cleifion fynd i fod i ffwrdd oddi wrth y cleifion eraill pe baent yn dymuno. Ynghyd â'r manau hyn, roedd ystafell synhwyrdd ac ystafell gyfrifiaduron. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fynediad at y rhyngwyd i gleifion trwy rwydwaith cyfrifiaduron y bwrdd iechyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o fynediad at y rhyngwyd i gleifion sy'n preswyllo yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu.

Roedd gardd breifat yn yr uned y gallai cleifion gael mynediad rhydd ati. Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at y cyfleusterau yn yr uned ac yn yr ardal leol. Byddai staff yn cynorthwyo cleifion yn ôl y gofyn.

Cadarnhaodd y cleifion y siaradom â nhw eu bod yn cael eu helpu gan y staff a'u bod yn mwynhau mynd i'r gymuned ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol. Gwelsom gleifion yn mynd i'r gymuned leol ac yn dychwelyd oddi yno trwy gydol yr arolygiad.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1-Gofal Gydag Urddas)

Canfuwyd gennym fod cleifion yn yr uned yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff a oedd yn gweithio yno, ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn nogfennau gofal y cleifion.

Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a charedigrwydd. Fodd bynnag, yn ystod ein hamser yn un o'r manau i gleifion, gwelsom un aelod o staff a allai

fod wedi ymgysylltu â chleifion gyda mwy o barch. Roedd yn amlwg bod aelodau eraill o staff yn gallu rhyngweithio mewn ffordd fwy parchus â'r cleifion a oedd yn ymddwyn mewn ffordd debyg. Tynnwyd sylw Rheolwr yr Uned at hyn ar adeg yr arolygiad, ac fe'n sicrhawyd y byddai'n ymdrin â hyn gyda'r staff dan sylw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd sy'n dangos parch.

Roedd yn ymddangos bod gan staff ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae cleifion unigol yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi, eu hymddygiadau a sut i gynorthwyo a rheoli'r rhain.

Roedd gan yr holl gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain a oedd wedi'u personoli i chwaeth a diddordebau pob claf. Oherwydd ymddygiad rhai cleifion, roedd yn ofynnol cadw eu hystafelloedd gwely yn foel er diogelwch y claf. Gallai'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely er mwyn cael preifatrwydd, ond gallai'r staff eu hagor os oedd yn ofynnol ar gyfer diogelwch.

Canfuom fod staff yn parchu preifatrwydd y cleifion cyn belled â phosibl. Gwelsom staff yn cnocio ar ddrysau yn gofyn i gleifion a oedd hi'n iawn i fynd i mewn i'w hystafelloedd gwely cyn gwneud hynny. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod aelodau staff yn dangos parch atynt ac yn garedig â nhw.

Cynorthwywyd cleifion gyda'u hylendid personol yn unol â'u hanghenion ac roedd yn ymddangos bod yr holl gleifion yn derbyn gofal da. Roedd cyfleusterau cawod ac ystafell ymolchi i gleifion eu defnyddio yn yr uned a chynorthwywyd rhai cleifion gan aelodau staff yn unol â'u hanghenion. Fodd bynnag, nid oedd y cyfleusterau a chynllun yr ystafelloedd hyn yn gwneud cynorthwyo cleifion yn briodol yn hwylus. Mae angen adolygu'r cyfleusterau ystafell ymolchi a chawod er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i gleifion eu defnyddio gyda chymorth staff neu hebdo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau ystafell ymolchi a chawod er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y grŵp cleifion, gan gynnwys pan fydd angen cymorth gan aelodau staff.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion y siaradom â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr uned. Gwelsom staff nyrsio yn rheoli ymddygiad cleifion i hybu diogelwch a lles cleifion eraill a staff sy'n gweithio yn yr uned.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir (Safon 5.1 – Gofal Amserol)

Gwelsom fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu yn yr uned gan y tîm staff. Roedd gan un claf anghenion cymhleth ac roedd wedi bod yn byw yn yr uned ers nifer o flynyddoedd. Er bod y tîm gofal yn darparu gofal priodol i'r claf; roedd yn amlwg bod angen archwilio anghenion gofal y claf hwn ymhellach er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ac ar gael i sicrhau'r profiad gorau posibl i'r unigolyn hwn fel claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth o ofal i'r claf hwn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ac ar gael i sicrhau'r profiad gorau posibl i'r unigolyn hwn fel claf.

Edrychom ar y cynlluniau gofal ar gyfer tri chlaf. Roedd y rhain yn dangos bod aelodau o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaeth wedi bod yn rhan o ofal a thriniaeth y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth yn cael eu cynnal bob mis o leiaf. Mae'r rhain yn monitro cynlluniau gofal cleifion er mwyn nodi unrhyw broblemau'n gynnar a chynllunio gofal i fynd i'r afael â'r rhain.

Roedd y cleifion yn cymryd rhan yn y gymuned ac mewn cysylltiad ag un claf a oedd yn treulio cyfnodau hir o'i amser i ffwrdd o'r uned. Dywedodd y cleifion y siaradom â nhw wrthym eu bod yn mwynhau byw yno a bod y staff yn eu helpu yn ôl yr angen. Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion gofal unigol y cleifion.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm gofal yn llunio 'Adroddiad Canlyniad Asesiad a Thriniaeth' pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r uned, sy'n crynhoi'r holl fanylion gofynnol i ddarparu gofal i'r claf yn y lleoliad preswyl nesaf neu ar ôl ei ryddhau.

Gofal unigol

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)

Gwelsom fod gan gleifion yn yr uned eu cynllun gofal ysgrifenedig eu hunain. Roedd y rhain yn dangos bod eu hanghenion wedi cael eu hasesu, eu gofal a'u triniaeth wedi cael eu cynllunio a bod gofal wedi cael ei ddarparu gan y rhai a oedd yn ymwneud â'u gofal. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal a thriniaeth fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010².

Edrychwyd ar y cynlluniau gofal ar gyfer tri chlaf, a oedd yn fanwl iawn gyda thystiolaeth bod cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio eu gofal. Roedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion, cryfderau a galluoedd y claf. Roedd asesiadau gofal iechyd corfforol manwl iawn wedi'u hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal. Yn benodol, roedd cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a Phortreadau cleifion manwl iawn.

Roedd un set o nodiadau ar gyfer claf a dderbyniwyd yn ddiweddar. Er gwaethaf y cyfnod byr ers derbyn y claf hwn, roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl helaeth yn ymwneud â'r gofal unigol ar ei gyfer. Er bod yr asesiad yn parhau ar gyfer y claf hwn, roedd y dogfennau gofal wedi'u cwblhau gyda'r wybodaeth fwyaf perthnasol a phwysig. Er bod dogfennau cleifion mewnol yn gynhwysfawr, roedd yr uned yn dal i aros am Gynllun Gofal a Thriniaeth y claf gan y tîm cymunedol a oedd wedi bod yn ymwneud â gofal y claf yn flaenorol. Mae hyn yn golygu nad oedd gan y gwasanaeth cleifion mewnol y wybodaeth fwyaf cyfredol am gleifion wrth eu derbyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth cymunedol fod ar gael yn barod mewn lleoliadau cleifion mewnol fel sy'n ofynnol.

Yn ogystal â'r Offeryn Asesu Trallod Anabledd (DisDAT) a oedd yn cael ei ddefnyddio, nodwyd gennym fod y tîm gofal hefyd yn defnyddio offeryn poen uwch yn ôl y gofyn, a adlewyrchwyd yng nghynllun 'Fy Anghenion Iechyd' cleifion unigol.

Er i ni weld dogfennau cleifion hynod fanwl, nodwyd gennym hefyd bod nifer o bethau nad oeddent wedi'u cynnwys mewn cofnodion, gan gynnwys:

² Deddf a wnaed gan Lywodraeth Cymru yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a fydd yn helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn pedair gwahanol ffordd.

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/measure/?lang=cy>

- Ni adlewyrchwyd newid diweddar i statws cyfreithiol claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn nogfennau gofal y claf. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwlch hwn wedi cael ei nodi yn ystod archwiliad diweddar rheolwr yr uned a'i fod wrthi'n cael ei gywiro.
- Sylwyd gennym fod cynllun Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol un claf yn destun adolygiad ers pedwar mis. Bu'r oedi oherwydd argaeledd y tîm amlddisgyblaeth; fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o ddyddiad adolygu newydd ac felly roedd yn ymddangos bod yr adolygiad wedi cael ei anghofio. Fe'n sicrhawyd gan Reolwr yr Uned y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn fuan gan fod holl aelodau'r tîm amlddisgyblaeth ar gael.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa staff o bwysigrwydd sicrhau bod dogfennau cleifion yn adlewyrchu statws cyfreithiol yr unigolyn yn gywir.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynllun Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol y cyfeiriwyd ato yn cael ei ddiweddarau.

Roedd y staff yn cynnwys cleifion yn ymarferol yn eu gofal ac mewn penderfyniadau beunyddiol fel prydau bwyd a gweithgareddau. Gwelsom gleifion yn bod yn annibynnol trwy gydol yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod y staff yn gefnogol iawn ac yn cynorthwyo cleifion yn ôl y gofyn yn seiliedig ar eu hanghenion gofal unigol.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 Hawliau Pobl)

Canfuom y darparwyd gofal a thriniaeth i gleifion yn yr uned mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu sicrhau. Gwelsom staff yn parchu preifatrwydd cleifion. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu helpu i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Pan gyfyngwyd ar ddewisiadau'r cleifion, gwelsom fod y rhesymau am hyn wedi cael eu hysgrifennu yn eu cynlluniau gofal unigol. Ac eithrio'r un newid diweddar i statws cyfreithiol claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, roedd y cofnodion gofal a welsom hefyd yn dangos bod cyfyngiadau ar waith.

Roedd awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid³ wedi cael eu derbyn yn unol â'r trefniadau priodol, neu roedd penderfyniad i gadw claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael ei wneud. Roedd eiriolaeth annibynnol ar gael i gleifion gan gynnwys eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol⁴ ac Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol⁵.

Roedd yn ymddangos o siarad â'r staff ac o edrych ar y cynlluniau gofal bod gan y staff ddealltwriaeth dda o'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Roedd cofnodion hyfforddiant staff yn dangos bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ar gyfer cleifion yn yr uned, gan gynnwys mewn fformat Hawdd ei Ddeall.

Er bod gan nifer o gleifion gyfyngiadau o ran pryd y gallent adael yr uned, roedd yn gadarnhaol nodi nad oedd drws yr uned wedi ei gloi fel nad oedd mynediad cleifion eraill at y gymuned yn cael ei gyfyngu. Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau y gallai'r rhai yr oedd cyfyngiadau arnynt rhag mynd i'r gymuned ddim ond yn mynd i'r gymuned pan oedd ganddynt ganiatâd.

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3- Gwrando a Dysgu o Adborth)

³ Framwaith o fesurau diogelu yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ar gyfer pobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf i dderbyn gofal neu driniaeth, ac nad yw'r gallu ganddynt i gydsynio i'r trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal neu driniaeth.

⁴ Swydd a grëwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yw'r Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Mae Eiriolwr o'r fath yn annibynnol a gall gynorthwyo unigolyn agored i niwed nad yw'r galluedd meddyliol ganddo i wneud penderfyniadau, fel triniaeth feddygol ddifrifol, neu lety.

⁵ Eiriolwr annibynnol yw Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, sydd wedi'i hyfforddi'n benodol i weithio o fewn fframwaith y Ddeddf Iechyd Meddwl i gynorthwyo pobl i ddeall eu hawliau o dan y Ddeddf a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Roedd system y bwrdd iechyd ar gyfer derbyn adborth gan gleifion a'u teuluoedd yn cael ei defnyddio yn yr uned, gan gynnwys fersiynau Hawdd eu Darllen. Fodd bynnag, dywedodd y staff nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n aml. Disgrifiodd staff uwch ffyrdd anffurfiol ac ad hoc o dderbyn adborth gan gleifion a'u perthnasau ar eu profiadau o'r gofal a ddarparwyd.

Mae rhai o aelodau teuluoedd y cleifion yn mynychu cyfarfodydd gyda'r tîm gofal i drafod eu safbwyntiau ar y gofal sy'n cael ei ddarparu i'r aelod o'u teulu.

Roedd cynrychiolwyr eiriolaeth o'r gwasanaethau Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol hefyd yn cynnig adborth i'r gwasanaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion.

Canfuwyd gennym fod anghenion maeth a deiet y grŵp cleifion yn cael eu diwallu a bod y ddarpariaeth o fwyd gan y staff cadw tŷ yn y gwasanaeth yn rhagorol.

Roedd lefel helaeth o fonitro ac archwilio ystafelloedd clinig ac arferion clinigol i ddiogelu cleifion ac aelodau staff. Roedd y cysylltiad helaeth ag arbenigeddau'r ysbyty cyffredinol lleol yn ganmoladwy.

Roedd yr aelodau staff yn siarad â chleifion i'w helpu i ddeall eu gofal a'u triniaeth. Roedd y staff hefyd yn defnyddio ffurfiau eraill o gyfathrebu a thechnoleg i helpu cleifion i ddeall gwybodaeth.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1- Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)

Canfuom yn gyffredinol fod iechyd, diogelwch a lles y cleifion yn cael eu sicrhau. Roedd yr uned yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod ac roedd aelodau'r staff yn wylidwrus er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal. Roedd pob man yn rhydd rhag peryglon baglu amlwg. Roedd yr holl fannau i gleifion ar lawr daear yr uned. Fe'n hysbyswyd gan staff bod peryglon i ddiogelwch cleifion yn cael eu hasesu ac y cymerir camau i leihau'r peryglon hynny cyn belled â phosibl. Gwelsom hefyd fod asesiadau risg wedi cael eu cynnal yn y cynlluniau gofal yr edrychom arnynt.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n weddol dda. Caiff y gwaith glanhau ei wneud gan staff domestig pwrpasol yn yr uned. Mae'r uned yn cynnal archwiliadau amgylchedd misol i adolygu unrhyw waith ystâd y mae angen ei wneud, a hysbysir adran ystadau'r bwrdd iechyd am y gwaith hwn.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae angen ailwampio'r ystafelloedd ymolchi a'r cawodydd. Nodwyd gennym hefyd fod difrod i'r plastr o gwmpas rhai o'r fframiau drws. Mae angen trwsio'r pethau hyn fel blaenoriaeth er mwyn atal difrod pellach i'r manau.

Roedd angen newid y ffenestr yn yr 'ystafell feddal' ar ôl i glaf ei difrodi. Roedd adran ystadau'r bwrdd iechyd wedi cael ei hysbysu am hyn ac roedd yn rhoi

syllw i'r mater. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad.

Roedd angen glanhau'r tu allan i ffenestri'r uned. Fe'n hysbyswyd bod hyn wedi cael ei wneud yn rheolaidd gan gontractwr; serch hynny, nid oeddent wedi cael eu glanhau ers dros flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith trwsio fframiau drws a ddifrodwyd yn cael ei gwblhau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffenestr yn yr 'ystafell feddal' yn cael ei newid.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y tu allan i ffenestri'r uned yn cael eu glanhau'n rheolaidd.

Nodwyd bod yr uned yn disgwyl i offer diogelwch personol gael ei ddanfôn. Roedd yr archeb ar gyfer yr offer hwn wedi cael ei hawdurdodi gan yr uwch reolwyr, ond nid oedd wedi cael ei ddarparu ar adeg ein harolygiad. Roedd y diffyg offer diogelwch personol i staff yn gohirio staff rhag cyflawni agwedd bwysig ar ofal y claf a oedd yn amhriodol.

Nid oedd ymddygiad posibl y claf yn anghyffredin i gleifion sy'n derbyn gofal yn yr uned. Dylai fod gan y bwrdd iechyd offer diogelwch personol ar gael yn barod, ac y gellir ei ddarparu ar unwaith i unedau ar gyfer ymddygiad sy'n gyffredin i gleifion sy'n derbyn gofal yn y gyfarwyddiaeth anabledau dysgu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ymddygiad sy'n gyffredin i gleifion sy'n derbyn gofal yn y gyfarwyddiaeth anabledau dysgu er mwyn sicrhau bod offer diogelwch personol ar gael yn barod i'r staff.

Codom ein pryderon am ddiffyg archwiliadau o bwyntiau rhwymynnau yn yr uned. Er bod angen rheoli'r risgiau ar gyfer cleifion unigol, byddai'n briodol i'r gwasanaeth gynnal archwiliadau rheolaidd o bwyntiau rhwymynnau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau rheolaidd o bwyntiau rhwymynnau a chymryd camau lliniaru priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i gleifion.

Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd a rheoli tagu, ond roedd hyfforddiant wyth (40%) aelod o staff wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn. Oherwydd y grŵp cleifion sy'n derbyn gofal yn y gwasanaeth, mae'n hanfodol bod gan yr holl staff hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn. I'r staff hynny nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant adnewyddu, dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam ac, yn ôl yr angen, cynorthwyo'r staff i dderbyn hyfforddiant.

Cedwir offer dadebru yn y gwasanaeth rhag ofn y bydd argyfwng claf (llewygu). Fodd bynnag, roedd rhai o'r eitemau dadebru yn hen ac roedd angen eu disodli.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer brys yn ddiogel i'w ddefnyddio os bydd argyfwng claf (llewygu).

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 Maethiad a Hydradiad)

Canfuom fod cleifion yn yr uned yn cael eu helpu i fwyta ac yfed. Gwelsom gynlluniau gofal manwl yn nodi'r cymorth mae ei angen ar gleifion i fwyta ac yfed.

Roedd y cleifion yn derbyn asesiadau maethiad a hydradiad unigol ynghyd ag asesiadau a chanllawiau arbenigol pellach fel Therapi Lleferydd ac Iaith e.e. ar gyfer cleifion sydd mewn perygl o ddioddef dysffagia (anhawster neu anghysur wrth lyncu).

Roedd gan yr aelodau staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion deiet arbenigol, wedi'u cynorthwyo o'r tu mewn i'r bwrdd iechyd gan nyrs arbenigol.

Y staff cadw tŷ domestig sy'n gweini'r bwyd i'r cleifion yn yr uned. Cyflenwyd y bwyd o ysbyty cyffredinol cyfagos a gwelsom fod cyflwyniad y bwyd o safon ragorol. Er mwyn ategu'r bwyd a gyflenwir gan yr ysbyty, byddai'r staff cadw tŷ yn prynu bwyd ychwanegol o siopau lleol fel siopau bara ac archfarchnadoedd. Roedd hyn yn cynnig mwy o ddewis i'r cleifion a oedd yn diwallu eu hanghenion deietegol ac yn bodloni eu dymuniadau personol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom un gweithiwr cadw tŷ yn trafod opsiynau bwyd â'r cleifion yn unigol yn yr uned, gan wrando ar safbwyntiau cleifion a chynnig opsiynau i'r claf er mwyn sicrhau bod y claf yn fodlon gyda'r pryd y byddai'n ei

gael. Gwnaeth staff yn yr uned sylwadau ffafriol iawn am y staff cadw tŷ gan ddweud eu bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i ofal cleifion yn yr uned.

Roedd y gegin ar y safle yn yr uned yn briodol i'r staff cadw tŷ baratoi bwyd a diod i gleifion yn yr uned. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod diffyg lle storio ar gael yn y gegin ar gyfer nwyddau sych a thuniau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lle storio yng nghegin yr uned.

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau)

Canfuom yn gyffredinol fod meddyginiaeth pobl yn cael ei rheoli'n ddiogel yn yr uned. Defnyddiwyd ystafell neilltuedig ar gyfer storio meddyginiaeth a ddefnyddir yn yr uned. Gwelsom fod hon wedi ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio er mwyn atal pobl, heb ganiatâd, rhag mynd i mewn. Roedd meddyginiaethau wedi'u storio mewn cypyrddau wedi'u cloi er diogelwch, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir sy'n cael eu storio a'u monitro fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod lefel helaeth o fonitro ac archwilio ystafelloedd clinigol ac arferion clinigol i ddiogelu cleifion ac aelodau staff. Roedd sawl archwiliad meddyginiaeth rheolaidd ar waith, fel archwiliad wythnosol o siartiau meddyginiaeth, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Roedd llawer o gynlluniau meddyginiaeth unigoledig ar waith ar gyfer pob claf, gan gynnwys 'meddyginiaeth yn ôl y gofyn'. Nodwyd manylion 'meddyginiaeth yn ôl y gofyn' a roddwyd yng nghofnodion y cleifion. Pan oedd yn ofynnol, roedd manylion meddyginiaeth gudd hefyd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gofal unigoledig ac ochr yn ochr â'r siartiau meddyginiaeth.

Adolygwyd yr holl siartiau meddyginiaeth yn wythnosol yn ystod rowndiau ward er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n dal i fod yn briodol i'r claf. Trafodwyd y defnydd ar feddyginiaeth wrth-seicotig / dawelyddu gan y tîm amlddisgyblaeth yn ystod rowndiau ward ac roedd y defnydd yn cael ei fonitro. Cofnodwyd hyn yng nghynlluniau gofal cleifion hefyd.

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg. (Safon 2.7- Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg)

Roedd gan y staff fynediad at wybodaeth am yr hyn i'w wneud i ddiogelu lles a diogelwch cleifion yn yr uned.

Disgrifiodd staff nyrsio uwch y broses y byddai disgwyl i'r staff ei dilyn pe baent yn nodi problem o ran diogelu. Roedd hyn yn cyd-fynd â gweithdrefn Oedolion Agored i Niwed Cymru Gyfan. Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw broblemau diogelu ar adeg ein harolygiad. Dywedodd y cleifion y siaradom â nhw fod y staff yn eu helpu i deimlo'n ddiogel.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod pob aelod o staff ac eithrio un wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion; fodd bynnag, roedd hyfforddiant tri aelod arall o staff wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn. Mae'n hanfodol er diogelwch cleifion bod gan yr holl staff hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1-Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)

Gwelsom fod gan gleifion yn yr uned gynlluniau gofal unigoledig a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y rhain yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio i wneud yn siŵr bod cleifion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gellid ei osgoi.

Dywedwyd wrthym fod disgwyl i aelodau staff fynychu hyfforddiant a drefnwyd gan y bwrdd iechyd. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau sy'n berthnasol i wneud eu swyddi ac roedd cydymffuriad o ran cwblhau yn uchel. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd eisoes, mae nifer o aelodau staff angen hyfforddiant adnewyddu mewn rhai meysydd hyfforddi. I'r staff hynny y mae eu hyfforddiant wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn, dylai'r bwrdd iechyd ystyried y rhesymau pam ac, os oes angen, cynorthwyo'r staff i dderbyn yr hyfforddiant mae ei angen.

Roedd enghraifft ragorol o atal dirywiad pellach i salwch corfforol, trwy gysylltiadau helaeth ag arbenigeddau'r ysbyty cyffredinol lleol, fel orthopedeg, microbioleg a gofal coronaidd.

Gwelsom fod cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) yn cael eu defnyddio. Mae'r rhain yn helpu'r staff i nodi pan fydd angen cymorth ar gleifion i reoli ymddygiad a allai fod yn heriol i bobl eraill. Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion ac fe'u gwelwyd yn helpu cleifion i fod yn ddiogel a lleihau unrhyw orbyrder yr oeddent yn ei ddangos.

Cefnogwyd yr uned gan y Tîm Ymddygiad Arbenigol a oedd yn cymryd rhan yn mewn cynllunio ac adolygu gofal yn ôl y gofyn. Roedd y cynlluniau PBS wedi eu hysgrifennu gyda'r prif bwyslais ar atal ymddygiadau heriol, gyda'r athroniaeth o ymyriad lleiaf cyfyngol bob amser. Os oes angen ataliaeth, nodwyd gennym fod cynlluniau ataliaeth manwl iawn ar waith. Roedd y rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd a'r defnydd o ataliaeth yn cael ei gofnodi a'i adolygu.

Mae'n ganmoladwy bod yr uned wedi cyfrannu at gyhoeddiad diweddar 'Positive behavioural support as a clinical model within acute assessment and treatment services'.

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2-Cyfathrebu'n Effeithiol)

Cofnodwyd anghenion cyfathrebu cleifion yn eu cynlluniau gofal unigol. Fe'n hysbyswyd bod y staff yn siarad â chleifion er mwyn eu helpu i ddeall penderfyniadau am eu gofal.

Yn ddibynnol ar anghenion claf unigol, nodwyd gennym hefyd y byddai staff yn defnyddio gwybodaeth Hawdd ei Darllen i gynorthwyo gyda chyfathrebu. Gwelsom staff yn siarad iaith arwyddion â chleifion er mwyn cynorthwyo gyda chyfathrebu a nodwyd gennym hefyd fod un claf yn defnyddio 'ProTalk', cymorth cyfathrebu electronig, i gynorthwyo gyda chyfathrebu.

Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol. (Safon 3.5-Cadw Cofnodion)

Roedd cofnodion a ddefnyddir yn yr uned yn cael eu storio'n ddiogel i atal pobl heb awdurdod rhag eu darllen. Roedd cofnodion cleifion wedi'u cwblhau i safon dda iawn, yn gyfredol, wedi'u llofnodi, eu dyddio ac yn gyfoes.

Roedd cofnodion beunyddiol yn ffeiliau cleifion unigol yn rheolaidd trwy gydol y dydd ac yn fanwl fel ei bod yn hawdd deall gweithgareddau a chyflwyniad y claf. Fodd bynnag, nid oedd aelodau staff bob amser yn gwneud eu cofnodion beunyddiol yn unol â chanllawiau cadw cofnodion y bwrdd iechyd. Er bod aelodau staff yn llofnodi ac yn dyddio cofnodion, nid oeddent yn printio eu henwau na'u gradd yn unol â'r canllawiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn dilyn canllawiau cadw cofnodion y bwrdd iechyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr uned anabledau dysgu. Gwelsom dîm staff ymroddedig yr oedd yn ymddangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion sy'n byw yn yr uned.

Fe'n hysbyswyd gan staff y gallent siarad â'u rheolwyr am eu gwaith ac roedd goruchwyliaeth staff yn cael ei chyflawni. Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn uchel ond roedd elfennau o hyfforddiant a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad terfyn yng nghyswllt rhai aelodau staff.

Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau â'r tîm staff, ond nid oedd dysgu o ddigwyddiadau ar draws y gyfarwyddiaeth anabledau dysgu yn cael ei rannu'n ehangach fel mater o drefn ymhlith gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Rheolwr nyrsio oedd yn gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth dirprwy. Roedd y tîm nyrsio'n sefydledig ac roedd mwyafrif y staff yn gweithio yn yr uned ers nifer o flynyddoedd. Roedd yn gadarnhaol gweld lleoliadau nyrsys dan hyfforddiant yn yr uned.

Roedd Rheolwyr Unedau ar draws y gyfarwyddiaeth anabledau dysgu yn cynnal cyfarfodydd misol ac fe'n hysbyswyd eu bod yn drafodaethau defnyddiol â chymheiriaid.

Roedd yn amlwg trwy gydol yr arolygiad bod Rheolwr yr Uned yn darparu arweinyddiaeth eglur a chryf yn yr uned, ei fod yn canolbwyntio'n fawr ar y cleifion gyda gwybodaeth drylwyr am bob claf. Roedd yr arweinyddiaeth a ganolbwyntir ar y tîm a ddarperir gan Rheolwr yr Uned yn galluogi aelodau staff i gael eu grymuso i gyflawni eu swyddogaethau a datblygu'r gwasanaeth er budd y grŵp cleifion.

Disgrifiodd staff uwch drefniadau addas ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch cleifion ac ymchwilio iddynt. Fe'n hysbyswyd bod dysgu o ddigwyddiadau yn yr uned yn cael ei rannu â'r tîm staff. Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd dysgu o ddigwyddiadau yn cael ei rannu'n ehangach ymhlith gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd fel mater o drefn. Dylai'r bwrdd iechyd

ystyried y rheswm am hyn a gwneud trefniadau i rannu dysgu o ddigwyddiadau cleifion fel mater o drefn fel sy'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y rhesymau pam nad yw dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn cael ei rannu fel mater o drefn ymhlith gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd a chymryd camau priodol i hybu dysgu a rennir.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen. (Safon 7.1-Gweithlu)

Ar adeg yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod digon o staff yn gweithio ar bob sifft â'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion cleifion yn yr uned. Nid oedd yr uned yn defnyddio staff asiantaeth na staff banc y bwrdd iechyd, sy'n golygu bod cleifion yn cael eu cynorthwyo gan aelodau staff y maent yn gyfarwydd â nhw.

Oherwydd arsylwadau estynedig sy'n ofynnol oherwydd ymddygiadau rhai o'r cleifion, roedd staff cymorth gofal iechyd ychwanegol ar y sifft. Roedd rhai o'r sifftiau ychwanegol hyn yn cael eu llenwi gan weithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio un sifft ar ôl y llall, a oedd yn golygu bod staff yn gweithio oriau hir iawn. Er bod rheolwr yr uned yn monitro nifer yr oriau a weithiwyd fesul gweithiwr cyflogedig, a bod y rhai y siaradom â nhw wedi dewis gweithio'r sifft, gallai'r arfer hwn olygu na fydd aelodau staff yn ddigon effro tuag at ddiwedd eu sifftiau, a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion. Rydym yn ymwybodol y bydd y bwrdd iechyd yn newid o'r trefniadau oriau goramser presennol i drefniant staff banc ym mis Medi 2016. Yn y cyfamser, mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn gweithio patrymau sifft priodol i sicrhau diogelwch cleifion a lles y staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gweithio patrymau sifftiau priodol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a lles y staff.

Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion. Roedd y staff yn hyblyg iawn gyda'u patrymau gweithio i alluogi cleifion i gyflawni gweithgareddau cymunedol yn ystod y dydd, fin nos ac ar benwythnosau. Roedd sefydlogrwydd y tîm staff yn sicrhau gofal cyson i'r cleifion, yn enwedig i'r cleifion hynny sydd yn yr uned ers nifer o flynyddoedd.

Roedd yn gadarnhaol nodi y byddai aelodau staff o'r lleoliad newydd yn mynychu'r uned yn rheolaidd pan oedd disgwyl i gleifion symud o'r uned i leoliad arall. Roedd hyn yn galluogi'r aelodau staff i ddod i adnabod y claf ac i'r claf arfer â'r staff newydd. Byddai Rheolwr yr Uned yn sicrhau na fyddai unrhyw staff newydd neu ymwelwyr yn amharu ar y grŵp cleifion ac yn rheoli'r sefyllfa gydag ystyriaeth i'r grŵp cleifion yn ei gyfanrwydd.

Gwahoddom y staff i gynnig eu safbwyntiau eu hunain am weithio yn yr uned. Gwnaethom hyn trwy siarad â staff a gofyn iddynt gwblhau holiadur AGIC. Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu ymhlith y tîm yn dda a'u bod yn teimlo y gellid cynnal trafodaethau yn agored. Ar y cyfan, roedd aelodau staff yn gadarnhaol am weithio yn yr uned a'r gofal cleifion a ddarperir.

Roedd y staff wedi cwblhau arfarniadau blynyddol ac fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn cael cyfleoedd i drafod materion sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda'u rheolwr. Roedd rhaglen strwythuredig o oruchwyliaeth ffurfiol i aelodau staff ar bob gradd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Yn ystod yr adolygiad o gofnodion hyfforddi'r staff, roedd meysydd lle nad oedd rhai aelodau staff yn gyfredol o ran holl elfennau hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. I'r staff hynny nad oedd eu hyfforddiant yn gyfredol, dylai'r bwrdd iechyd ystyried y rhesymau pam a chynorthwyo'r staff i fynychu'r hyfforddiant yn ôl yr angen.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod nyrs rheoli heintiau arweiniol ar gyfer yr uned. Roedd yn darparu gwybodaeth a chymorth i aelodau staff yn yr uned yn rhan o'i swyddogaeth. Er bod wyth aelod o staff nad oedd ganddynt ddyddiad cwblhau ar gyfer e-ddysgu Rheoli Heintiau, roedd mwyafrif yr aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant gan y nyrs rheoli heintiau arweiniol. Er bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o reoli heintiau, nid yw'r ffigurau a gedwir gan y bwrdd iechyd yn adlewyrchu gwybodaeth y staff sy'n gweithio yn yr uned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw aelodau staff yn gyfredol o ran hyfforddiant gorfodol a chynorthwyo staff i fynychu'r hyfforddiant gofynnol yn ôl yr angen.

Adborth cyffredin a dderbyniwyd gan aelodau staff am ddarpariaeth hyfforddiant gorfodol oedd bod y modiwlau yn gyffredinol ac nid yn benodol i ofal anabledau dysgu. Dywedodd staff fod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn flaenorol yn canolbwyntio ar anabledau dysgu ac felly'n fwy buddiol i'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu darpariaeth hyfforddiant gorfodol i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau Anableddau Dysgu yn benodol.

5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledau dysgu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y gwasanaeth anabledau dysgu yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anabledau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Anableddau Dysgu: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr

Dyddiad yr Arolygiad: 18 a 19 Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu darpariaeth mynediad at y rhyngrwyd i gleifion sy'n preswyllo yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu.	1.1	Bydd y gwasanaeth yn archwilio gyda'r Adran TG sut y gellir darparu mynediad at y rhyngrwyd yn ystafell weithgareddau'r cleifion.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Hyd 2016
7	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau staff yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd sy'n dangos parch.	4.1	Cafodd Rheolwr yr Uned gyfarfod â'r aelod unigol o staff i'w wneud yn ymwybodol o'i ffordd o rhyngweithio â'r claf ac i gynnig cyfle iddo fyfyrion ar hyn. Hefyd i'w gwneud yn eglur beth yw'r rhyngweithio priodol a ddisgwylir gan holl aelodau'r tîm.	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
7	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau ystafell ymolchi a chawod er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y grŵp cleifion, gan gynnwys pan fydd angen cymorth gan aelodau staff.	4.1	Bydd adolygiad o'r ystafelloedd ymolchi yn yr uned yn cael ei gynnal a'i flaenoriaethu ar gyfer gwelliannau yn unol â'r manau eraill ar draws y gwasanaeth a'r cyllid cyfalaf cyfyngedig a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Tach 2016
8	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu darpariaeth gofal i'r claf hwn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ac ar gael i sicrhau'r profiad gorau posibl i'r unigolyn hwn fel claf.	5.1	Bydd adolygiad parhaus o'r claf hwn a'i lefel gymhleth o anghenion yn parhau gyda'r Tîm Amlddisgyblaeth i sicrhau bod y lefel briodol o ofal yn cael ei darparu a cheisio cynllunio ar gyfer symud ymlaen yn y dyfodol pan fo hynny'n briodol.	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Medi 2016
9	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth cymunedol fod ar gael yn barod mewn lleoliadau cleifion mewnol fel sy'n ofynnol.	6.1	Bydd y gwasanaeth yn hysbysu holl Reolwyr y Timau Iechyd yn y gymuned i atgoffa eu staff, os bydd un o'u cleifion yn cael ei dderbyn i'n lleoliad cleifion mewnol, bod rhaid rhannu ei Gynllun Gofal a Thriniaeth cyfredol gyda'r uned ar y diwrnod derbyn.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Medi 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
10	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa staff am bwysigrwydd sicrhau bod dogfennau cleifion yn adlewyrchu statws cyfreithiol yr unigolyn yn gywir.	6.1	Bydd archwiliad diweddar y rheolwr yn cael ei rannu gyda'r holl staff yn yr uned ac fe'u hysbyswyd hefyd am bwysigrwydd cadw cofnodion cyfredol yn unol â Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd
10	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynllun Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol y cyfeiriwyd ato yn cael ei ddiweddarau.	6.1	Hysbyswyd yr holl staff yn yr uned am y bod y cynllun ymddygiad cadarnhaol wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn. Fe'u cyfarwyddwyd i adolygu eu cynlluniau presennol eu hunain ac i roi dyddiadau diffiniedig clir ar gyfer adolygiadau strwythuredig ar bob cynllun sy'n cael ei ddatblygu yn y dyfodol.	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Hyd 2016
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith trwsio fframiau drws a ddifrodwyd yn cael ei gwblhau.	2.1	Datblygu cynllun uwchgyfeirio ar gyfer ceisiadau cynnal a chadw a blaenoriaethu ceisiadau yn erbyn cyllidebau priodol. Cynhelir cyfarfodydd misol â rheolwyr ystadau erbyn hyn, a bydd yn	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Hyd 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			cael ei uwchgyfeirio drwy'r fforwm hwn.		
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ffenestr yn yr 'ystafell feddal' yn cael ei newid.	2.1	Datblygu cynllun uwchgyfeirio ar gyfer ceisiadau cynnal a chadw a blaenoriaethu ceisiadau yn erbyn cyllidebau priodol. Cynhelir cyfarfodydd misol â rheolwyr ystadau erbyn hyn, a bydd yn cael ei uwchgyfeirio drwy'r fforwm hwn.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Hyd 2016
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y tu allan i ffenestri'r uned yn cael eu glanhau'n rheolaidd.	2.1	Byddwn yn codi'r mater gyda Phennaeth y Gwasanaethau Gwesty i ddarganfod pa gontract sydd ar waith i sicrhau bod y ffenestri hyn yn cael eu glanhau.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Hyd 2016
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ymddygiad sy'n gyffredin i gleifion sy'n derbyn gofal yn y gyfarwyddiaeth anabledau dysgu er mwyn sicrhau bod offer diogelwch personol ar gael yn barod i'r staff.	2.1	Mae offer diogelwch priodol a nodwyd gan Reolwr yr Uned wedi cael ei archebu.	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd
14	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau rheolaidd	2.1	Bydd yr uned yn cwblhau asesiad risg rhwymynnau cychwynnol o'r	Rheolwr yr Uned / Rheolwr	30 Hyd 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	o bwyntiau rhwymynnau a chymryd camau lliniaru priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i gleifion.		holl amgylchedd ac adolygiad blynyddol wedi hynny. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth lefel y risg a nodwyd gan asesiadau risg cleifion unigol sy'n preswyllo yn yr uned o ran hunan-niweidio.	Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	
15	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer brys yn ddiogel i'w ddefnyddio os bydd argyfwng claf (llewygu).	2.1	Cynhaliwyd cyfarfod â hyfforddwr dadebru'r bwrdd iechyd ar 21 Gorffennaf 2016 i ddarganfod yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob uned yn y gwasanaeth. Anfonwyd manylion y fanyleb a gytunwyd ar gyfer offer at bob Rheolwr Uned ei rhoi ar waith.	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Hyd 2016
16	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lle storio yng nghegin yr uned.	2.5	Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer yr uned ar hyn o bryd o ran storio bwydydd sych a thuniau.	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Hyd 2016
19	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn dilyn canllawiau cadw cofnodion y bwrdd iechyd.	3.5	Bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu am y gofyniad i sicrhau bod yr holl gofnodion yn nodiadau cleifion yn cael eu llofnodi, eu dyddio ac yn cynnwys enw mewn llythrennau bras a swyddogaeth y nyrs yn eu herbyn	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Hyd 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			yn unol â pholisi.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
21	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y rhesymau pam nad yw dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn cael ei rannu fel mater o drefn ymhlith gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd a chymryd camau priodol i hybu dysgu a rennir.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Adolygir yr hyn a ddysgir o Datix trwy wahanol fforymau priodol, er enghraifft cyfarfodydd misol Rheolwyr yr Unedau, Adolygiadau Perfformiad a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau bod proses gadarn ar waith. Dylid dosbarthu cofnodion y cyfarfodydd hyn ymhlith holl Reolwyr yr Unedau er gwybodaeth ac i'w hadolygu.	Arweinydd Llywodraethu Dros Dro / Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	30 Hyd 2016
21	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gweithio patrymau sifftiau priodol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a lles y staff.	7.1	Bydd patrymau gweithio unigol yn parhau i gael eu hadolygu gan reolwyr i sicrhau nad yw staff yn gweithio'n ormodol. Bydd cyflwyno'r system banc i'r gwasanaeth Anabledau Dysgu yn cynyddu'r gronfa o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd ar gael i'n gwasanaeth.	Rheolwr yr Uned / Rheolwr Arweiniol ar gyfer Unedau Asesu	30 Hyd 2016
22	Dylai'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw	7.1	Mae'r gwasanaeth Anabledau Dysgu yn adolygu'r cydymffurfiaid	Rheolwr yr Uned	30 Tach 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	aelodau staff yn gyfredol o ran hyfforddiant gorfodol a chynorthwyo staff i dderbyn yr hyfforddiant gofynnol yn ôl yr angen.		<p>â'r holl hyfforddiant gorfodol bob pythefnos yng nghyfarfod y rheolwyr arweiniol.</p> <p>Bydd Rheolwr yr Uned yn rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'u diweddariadau hyfforddiant.</p>		
23	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu darpariaeth hyfforddiant gorfodol i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau Anableddau Dysgu yn benodol.	7.1	<p>Mae hyfforddiant gorfodol penodol yn gyffredinol ar draws y bwrdd iechyd ac mae'n ofynnol i'w staff ei gyflawni. Pan fydd hyfforddiant yn galluogi ei hun i fod yn fwy penodol i wasanaeth penodol, byddwn yn ceisio gwneud hyn bob amser.</p> <p>Mae'n anodd newid heb fod â manylion penodol yr hyfforddiant y cyfeirir ato.</p>	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro	Cwblhawyd

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dermot Nolan

Teitl: Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol Dros Dro

Dyddiad: 25 Awst 2016